# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 23.11.09

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd W Tudor Owen (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr**:** Robert Anderson, Louise Hughes, Evie Morgan Jones, J R Jones, Eryl Jones-Williams, Dewi Llewelyn, Peter Read, Ieuan Roberts a Gwilym Williams.

**Hefyd yn Bresennol:** Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu), Sïon Huws (Swyddog Priodoldeb), Geraint Edwards (Cyfreithiwr) ac Eleri Parry (Uwch Swyddog Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd W Gareth Roberts

**Croeso:** Croesawyd Geraint Edwards, Cyfreithiwr i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Trwyddedu Canolog, a diolchwyd iddo am ei waith clodwiw yn y maes.

**Gwellhad Buan: -** Dymunwyd adferiad iechyd llwyr a buan i Barbara Owen, Swyddog Pwyllgor oedd yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty.

**1. CADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd W. Tudor Owen yn Gadeirydd y pwyllgor hwn am y flwyddyn 2009/10

**2. IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Eryl Jones-Williams yn Is-gadeirydd y pwyllgor hwn am y flwyddyn 2009/10

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 27 Ebrill 2009 fel rhai cywir.

**5. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CANOLOG:**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, cofnodion y cyfarfodydd canlynol:-

| | | |
|---|---|---|
| 3 Ebrill 2009 | 8 Ebrill 2009 | 15 Ebrill 2009 |
| 1 Mai 2009 | 12 Mai 2009 | 22 Mehefin 2009 |
| 24 Mehefin 2009 | 6 Awst 2009 | 15 Medi 2009 |
| 24 Medi 2009 | 21 Hydref 2009 | |

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

**Yn codi**

**Cofnodion Is-bwyllgor Trwyddedu 21 Hydref 2009**

Adroddwyd gan y Rheolwr Trwyddedu bod apêl wedi ei gyflwyno yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog i ddiddymu Trwydded Eiddo Tafarn Bangor Blues ar 21 Hydref 2009.

Mynegodd aelodau rhwystredigaeth ynglŷn â sawl agwedd o drefniadaeth y llysoedd mewn perthynas ag apeliadau trwyddedu.

Cyfeiriodd aelod at sefyllfa ddiweddar, pan na fu'n bosibl iddo gyflwyno tystiolaeth trwy'r Gymraeg, am na roddwyd rhybudd ymlaen llaw i'r llysoedd, a mynegodd anfodlonrwydd mawr ynglŷn â'r sefyllfa.

Awgrymodd y Cyfreithiwr, bod y Cyngor, yn y dyfodol, yn gofyn i ddarpar dystion, ymha iaith maent yn dymuno cyflwyno'u tystiolaeth, er mwyn trefnu gyda'r llys bod darpariaeth briodol ar gael iddynt.

Ymhellach, mynegodd aelodau bryder oherwydd bod llysoedd yn gwyrdroi penderfyniadau'r Is-bwyllgor Trwyddedu. Eglurodd aelod ei fod yn amau gallu ynadon i ymdrin ag apeliadau trwyddedu, am nad ydynt yn hyddysg yn y maes. Nodwyd ymhellach bod aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu Canolog yn mynychu hyfforddiant cyson ym maes trwyddedu, ac awgrymwyd y dylai'r ynadon fynychu hyfforddiant cyffelyb.

Eglurodd y swyddogion bod apeliadau trwyddedu'n wrandawiad o'r newydd, a bod cyflwyno tystiolaeth newydd yn dderbyniol.

**PENDERFYNWYD bod y Rheolwr Trwyddedu'n gofyn i'r Gwasanaeth Llysoedd yng Ngwynedd gyfarfod gyda Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu a'r Rheolwr Trwyddedu, er mwyn trafod rhwystredigaeth yr aelodau ynglŷn â gallu'r fainc yn lleol i ddelio gyda materion trwyddedu, ynghyd â chyfleu anfodlonrwydd yr aelodau ynglŷn â diffyg darpariaeth ar gyfer cynnal gwrandawiadau'n ddwyieithog.**

**6. POLISI GAMBLO**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio ar adolygu Polisi Gamblo'r Cyngor.

Adroddwyd gan y Rheolwr Trwyddedu, ei bod yn ofynnol i'r Cyngor adolygu ei Bolisi Gamblo bob tair blynedd, bod y Polisi Gamblo presennol wedi ei fabwysiadu gan y Cyngor yn Ionawr 2007, a'i bod yn amser adolygu a mabwysiadu Polisi newydd.

Eglurwyd yr ymgynghorwyd yn helaeth ar y Polisi ac mai prin iawn oedd yr ymateb a dderbyniwyd.

Manylwyd ar y newidiadau arfaethedig.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r newidiadau i'w hymgorffori yn y Polisi Gamblo ac argymell i'r Cyngor llawn fabwysiadu'r Polisi Gamblo ddiwygiedig.**

**7. CABSAFE**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio ar gyflwyno Cynllun Cabsafe yng Ngwynedd er mwyn ceisio darparu gwasanaeth mwy diogel i ddefnyddwyr y gwasanaeth.

Adroddwyd gan y Rheolwr Trwyddedu bod y diwydiant hacni a hurio preifat o safon dderbyniol yng Ngwynedd gydag unigolion cydwybodol yn gweithio yn y diwydiant. Fodd bynnag, eglurwyd bod rhai cerbydau anghyfreithiol yn gweithredu o fewn y sir, ac er bod y gwasanaeth yn ceisio mynd ar ôl y gweithredwyr anghyfreithlon, nododd ei bod yn anodd cael y dystiolaeth angenrheidiol.

Pwysleisiwyd nad oedd gan y gweithredwyr anghyfreithlon yswiriant angenrheidiol i gludo pobl ac nid oedd archwiliadau wedi eu gwneud i sicrhau diogelwch y cerbyd nac addasrwydd y gyrrwr.

Nodwyd bod cynllun Cabsafe wedi gweithio'n llwyddiannus mewn llawer sir yng Nghymru, a bod y diwydiant yn lleol yn gefnogol i'r cynllun.

Manylwyd ar weithrediad, costau, amserlen cyflwyno a threfniadau hysbysebu'r cynllun yng Ngwynedd,

Cytunodd y Rheolwr i drafod gydag Adran Safonau Masnach y Cyngor er mwyn sicrhau bod tacsis sy'n hysbysebu mewn tafarndai wedi eu trwyddedu gan y Cyngor.

**PENDERFYNWYD treialu cynllun Cabsafe yng Ngwynedd am gyfnod o flwyddyn o 1 Ebrill 2010.**

**8. CYNHADLEDD BAKEWELL**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth adroddiad y Cyng. Eryl Jones-Williams, Is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu Canolog ar Gynhadledd Trwyddedu a fynychodd yn Bakewell, Swydd Derby.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30a.m. a daeth i ben am 11.15 a.m.